AM DDIM

Cyfnodolyn Synod Cymru Yr Eglwys Fethodistaidd

Rhifyn 235 Ebrill – Mai 2022

# Gwyliedydd



# O'R GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig **Jennifer Hurd**



**Pasg hapus!**

Pasg Hapus iawn! Unwaith eto, mae'n peri llawenydd i mi gael cyfarch darllenwyr y *Gwyliedydd* gyda'r geiriau traddodiadol, "Haleliwia! Atgyfododd Crist!" a gwn y byddwch chithau'n ymateb, "Atgyfododd yn wir! Haleliwia!" Yn hemisffer y gogledd, mae'r Pasg yn cyd-daro efo'r gwanwyn: wrth i ni ddathlu bywyd newydd yng Nghrist, mae bywyd newydd natur yn blodeuo unwaith eto hefyd. Mae arwyddion o adnewyddiad i'w gweld ym mhob man, sy'n sôn wrthym am yr adnewyddiad a ddaw i ni yn atgyfodiad Iesu. Mae'n dymor newid.



Clywais rai yn dweud nad ydyn nhw'n hoffi newid. Mae'n rhaid i mi gyfaddef na allaf ddeall hyn. Mae'n dibynnu, mae'n debyg, sut rydych chi'n gweld newid, ond i mi, mae'n rhan o fywyd a does gennym ni ddim dewis yn ei gylch. Mae'n rhywbeth i fyw ac i weithio gydag ef, a hyd yn oed i'w gofleidio, os yn bosib. Yn sicr, mae'n amhosib gwthio yn ei erbyn. Fel bodau dynol, rydym ni ein hunain yn newid drwy'r amser. Er enghraifft, dydw i ddim yr un person ag oeddwn i yn 18 oed – diolch byth! Cofiaf ddarllen yn rhywle ein bod ni'n newid yn llwyr – pob cell o'n corff – bob saith mlynedd. Felly, yn llythrennol, dydw i ddim yr un person ag oeddwn i ym 1983!

**Croesawu newid?**

Ac eto, rwy'n sylweddoli bod newid yn gallu codi ofn. Mae newidiadau personol yn digwydd weithiau heb i ni eu ceisio, o ran iechyd ac yn ein perthnasoedd neu ein sefyllfa ariannol. Mae'r un peth yn wir yn y byd: newid hinsawdd; rhyfeloedd newydd; mwtaniadau; clefydau a heintiau. Ar y llaw arall, mae yna newidiadau sydd i'w croesawu, fel y brechlynnau yn erbyn y coronafeirws a malaria, a'r cyfyngiadau yn cael eu codi wrth i ni gamu yn ofalus trwy'r pandemig. Y cyfle i beidio gwisgo mygydau yn ein gwasanaethau oedd un newid pwysig yn y gyfraith ym mis Mawrth, ac roedd llawer o bobl (er nad pawb) yn falch o'i weld. Rwyf yn hoffi beth ddywedodd yr hanesydd Lucy Worseley am hanes a sut mae'r byd yn newid: "Rwy'n meddwl fod hanes yn rhoi i ni obaith ar gyfer y dyfodol oherwydd rydych yn sylweddoli nad oes raid i bethau fod fel ag y maent." Amen, yn wir!

Yn bennaf oll, mae newid wrth galon ein ffydd Gristnogol. Dyna ystyr edifeirwch a thröedigaeth a dod yn Gristion – newid. Mae Duw yn ein newid ni ar hyd ein hoes, a thu hwnt, wrth iddo ein hail-greu i fod y bobl y mae am i ni fod. Roedd atgyfodiad Iesu yn newid enfawr, gyda chanlyniadau enfawr am adnewyddiad i'r greadigaeth gyfan. Fel y dywedodd yr Apostol Paul am y bywyd i ddod, "nid ydym i gyd i huno, ond yr ydym i gyd i gael ein newid…" (1 Corinthiaid 15: 51)

Bod yn Gristion yw bod yn berson sy'n newid, "changed from glory into glory/till in heaven we take our place," fel dywedodd Charles Wesley yn ei emyn enwog (*Caneuon Ffydd* 905). Dydy'r eglwys a'r ffydd Gristnogol ddim yn lle ar gyfer pobl sydd ddim yn hoffi newid, ac rwy'n ymfalchïo ac ymlawenhau yn hyn. Does arna i ddim eisiau aros fel rydw i, oherwydd dydw i ddim yn hoffi fy hunan weithiau! Gofynnaf i Dduw fy helpu i fod yn barod i newid, yn ôl ei ewyllys ac er ei ogoniant.

**Y Synod newydd**

Mae Cristnogion am newid, ac mae eglwys Iesu Grist yn newid hefyd. Mae'n siŵr bod yna bobl, rhyw 220 o flynyddoedd yn ôl, nad oedd am weld y newid a daeth yn sgil cenhadon cyntaf traddodiad John Wesley i'r Gymru Gymraeg. Oni bai am y newid hwnnw, wrth gwrs, fyddem ni ddim yn darllen y *Gwyliedydd* heddiw! Bydd newid ym mywyd yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru o Fedi 1af ymlaen wrth i'n Talaith newydd, ddwyieithog ddod i fodolaeth, gyda Chylchdaith Cymru yn rhan ohoni o dan arweiniad y Parchedig Ddr Ian Morris, Arolygydd newydd y Gylchdaith. O ddydd i ddydd, ni fydd y mwyafrif ohonom yn profi'r newid yn uniongyrchol, wrth i ni barhau i addoli a gwasanaethu yn ein capeli ein hunain, ond fel strwythur i gynnal a chefnogi beth sy'n mynd ymlaen yn ein capeli a'n cymunedau, bydd y newid yn arwyddocaol ac yn cynnig cyfleoedd i ehangu ein cenhadaeth trwy Gymru gyfan.


Felly Pasg Hapus iawn i chi! Rhown ein hymddiried yn ein Duw, a atgyfododd Grist o'r meirw i fywyd newydd ac sy'n cynnig bywyd newydd i bawb, ac eto sydd ei hun yn ddigyfnewid. "Mae ei gariad hyd byth" (Salm 136). Amen!

**Y Cadeirydd yn pregethu yn y gwahanol Ardaloedd**

Bydd Jennie'n ymweld â'r mannau isod yn Ebrill a Mai. Boed bendith Duw ar ei holl waith ac ar bawb sy'n pregethu'r Efengyl.

**Ebrill**
- 3 Dyffryn Conwy a Dyffryn Clwyd
- 10 Rhosllannerchrugog, Bathafarn a Llandegla
- 17 Llanfyllin
- 24 Llanrhaeadr

**Mai**
- 1 Gwyliau
- 8 Ceredigion a Meirionnydd
- 15 Glannau Maelor
- 22 Bathafarn
- 29 Morgannwg






Synod Cymru

# Gwyliedydd

**CYFNODOLYN SYNOD CYMRU YR EGLWYS FETHODISTAIDD**
Sefydlwyd 1877 – Cyfres Newydd 1987

**RHIF 235**
**EBRILL – MAI 2022**

Cyhoeddir 6 rhifyn y flwyddyn – am ddim i aelodau a chyfeillion Synod Cymru.
6 rhifyn trwy'r post £7.

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**



**GOLYGYDDION**
**ROBIN JONES**
LLYS ALAW,
18 STAD ERYRI
BETHEL,
CAERNARFON
GWYNEDD LL55 1BX
Ffôn 01248 670140
Ffôn symudol 07780 869907
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**
CRUD YR AWEL
LÔN NEWYDD COETMOR
BETHESDA,
GWYNEDD
LL57 3DT
Ffôn 01248 605365
Ffôn symudol 07554 958723
e-bost ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk



**DYDDIAD CAU**
5 MAI 2022



Hawlfraint llun y clawr:
fototaras/123RF.COM



Dyluniwyd gan Elgan Griffiths
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa


**DIOLCH**

Diolch yn fawr iawn am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r *Gwyliedydd.*

| | |
|---|---|
| **Hazel Jones**, Rhuthun | £7-00 |
| **Capel Horeb**, Croesoswallt | £50-00 |
| **Parchg JP Barnett**, West Kirby | £10-00 |
| **JM a Glenys Griffiths**, Llanharan | £12-00 |
| **Capel Preswylfa**, Cyffordd Llandudno | £20-00 |
| **Eryl Davies**, Caerwys | £20-00 |
| **Branwen Lloyd Edwards**, Caernarfon | £5-00 |
| **Llyfrgell Prifysgol Bangor** | £10-00 |
| **Llyfrgell Ganolog Caerdydd** | £10-00 |
| **Capel Carmel**, Moelfre | £ 7-00 |
| **Eira Owain**, Caernarfon er cof am ei phriod Owain Owain | £30-00 |
| **Margaret Lloyd** Llanfairpwll er cof am ei rhieni y Parchg a Mrs Tecwyn Parry | £25-00 |
| **Capel Salem**, Rhydyfoel | £30-00 |
| **Mrs M E Roberts**, Abergele er cof am ei phriod Euryn Roberts | £40-00 |
| **Cyn aelodau Capel Soar**, Tre'r ddol | £20-00 |
| Capel Soar, Penygarnedd | £10-00 |
| **CYFANSWM** | **£306-00** |



Croeso cynnes i bawb i Gyfarfod Merched Methodistaidd yng ngwledydd Prydain, a gynhelir yng nghapel Bathafarn, Rhuthun am 2 o'r gloch ar ddydd Sadwrn Ebrill 9fed, yng nghwmni Angharad Tomos. Paned a chacen i ddilyn.

MWiB

Dduw'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol,
mae ein meddyliau a'n gweddïau gyda'n chwiorydd a'n brodyr yn Wcráin a thrigolion y gwledydd cyfagos yn eu hofn a'u trallod.
Gweddïwn hefyd dros holl ranbarthau eraill y byd lle mae gwrthdaro, aflonyddwch neu ormes.
Gweddïwn y bydd cymod yn goresgyn casineb,
heddwch yn gorchfygu rhyfel,
gobaith yn disodli anobaith
ac y cyflawnir dy gynlluniau ar gyfer y byd a ni ei bobl. Amen.
*(Dydd Gweddi'r Byd 2022)*



# Cnoi Cil



gan Gwyndaf Roberts

Un o'r heriau mwyaf a wynebwyd gan ein heglwysi yn ystod Covid oedd darganfod sut i gadw mewn cysylltiad effeithiol â'r aelodau. Dyma'r cyfnod y daeth Zoom a'i debyg i sicrhau y byddai gwasanaethau ar gael i'r rhai a oedd yn berchen ar gyfarpar priodol. I'r rhai nad oedd ganddynt y cyfleusterau hyn, bu'n rhaid dibynnu ar yr hyn oedd ar gael ar y radio a'r teledu. Parhaodd Radio Cymru i ddarparu Caniadaeth y Cysegr, Bwrw Golwg ac oedfaon – ond oni fuasai'n bosibl cynnig mwy mewn ymateb i'r argyfwng? Am gyfnod cafwyd gwasanaethau crefyddol safonol iawn ar S4C ond unwaith eto mae'n siomedig na wnaed mwy gan unig sianel Gymraeg Cymru. Yr hyn sydd gennym bellach ar y Sul yw awr o Dechrau Canu, Dechrau Canmol. Rhan yn gynhyrchiad newydd a'r llall yn ail ddarllediad.

Mae'n drist nodi mai dim ond Songs of Praise sydd i'w gael ar y Sul ar deledu Saesneg. Wrth gwrs mae darpariaeth ar wahanol sianeli radio gydol yr wythnos ond arlwy byr a geir. Diolch am y rhaglenni hyn ond ni ellir llai na meddwl mai rhywbeth wedi'i wthio i'r cyrion yw Cristnogaeth bellach ar sianeli Cymru a Lloegr.

Darlledwyd o Gymru am y tro cyntaf gan y BBC yn Chwefror 1923 a chlywyd Mostyn Thomas yn canu Dafydd y Garreg Wen ar y rhaglen. Gan fod y stiwdio yng Nghaerdydd yn darlledu i ran o Gymru a De-orllewin Lloegr, cafwyd cwynion fyrdd am ormod o ganu emynau a gormod o Gymraeg ar y donfedd! Roedd hi'n 1964 cyn i BBC Cymru gael ei sefydlu wedi brwydr hir. Brwydro fu'r hanes wedyn cyn i S4C ddechrau darlledu ar 1 Tachwedd 1982.

Cyn dyfodiad y cyfryngau hyn wrth gwrs, yr unig ddull o gyfathrebu ar wahân i'r pulpud oedd y Wasg. Bu'r enwadau wrthi o ddifri' yn y maes o'r 19eg ganrif ymlaen. Y cyntaf i gyhoeddi cylchgrawn i blant oedd y Wesleaid pan gyhoeddwyd Y Winllan yn Llanidloes yn Ionawr 1848. Daeth i ben yn 1965 wedi'i uno â chylchgronau eraill o dan y teitl Antur. Y cylchgrawn crefyddol cyntaf i oedolion oedd Yr Eurgrawn Wesleaidd a gyhoeddwyd rhwng 1809 a 1983. Seren Gomer oedd y papur Cymraeg wythnosol cyntaf i ymddangos, a hynny yn 1814 ond yn 1825 daeth o dan ofal y Bedyddwyr a'i gyhoeddi'n chwarterol ganddynt tan 1983. Yr Haul oedd cylchgrawn yr Eglwys Wladol o 1835 tan 1983 ond erbyn hynny roedd wedi newid ei enw i'r Haul a'r Gangell. Thomas Gee fu'n gyfrifol am gyhoeddi Y Traethodydd a hynny yn 1845. Er mai cyhoeddiad anenwadol ydoedd, Methodistiaid Calfinaidd oedd ei gefnogwyr mwyaf a Llyfrfa'r enwad a fu'n ei gyhoeddi o 1913 tan yn ddiweddar iawn. Mae'n gylchgrawn pwysig a da gweld ei fod mewn dwylo diogel.

Papur newydd preifat oedd Seren Cymru o 1851 tan 1880 pan ddaeth dan law cwmni o Fedyddwyr. Daeth yn eiddo i'r Undeb yn 1936. Ers Chwefror 2021 mae'n cael ei gyhoeddi ar y We gyda'r Goleuad o dan yr enw Cennad.

Mae gwreiddiau'r Tyst yn mynd yn ôl i 1867 pan gyhoeddwyd Y Tyst Cymraeg yn Lerpwl gyda chymorth nifer o weinidogion annibynnol. Gwelwyd newidiadau dros y blynyddoedd ond yn 1936 daeth yn eiddo i'r Undeb. Mae'n llais cryf i'r Annibynwyr ac yn gyhoeddiad pwysig a dylanwadol.

Papur newydd a sefydlwyd yn 1869 fel menter breifat oedd Y Goleuad. Gan ei fod o'r dechrau yn adlewyrchu gweithgareddau'r Methodistiaid Calfinaidd, prynwyd ef gan y Cyfundeb yn 1911 ac fe barhaodd nes mynd yn rhan o Cennad yn 2021.

Gwelodd Y Gwyliedydd olau dydd yn 1877. O'r dechrau, gweinidogion oedd yn ei olygu ond ers 1987 lleygwyr fu'n gyfrifol am ei gynnwys ar ran Synod Cymru yr Eglwys Fethodistaidd.

Ers 1983 mae gennym y cylchgrawn cydenwadol Cristion a datblygiad pwysig o safbwynt cyhoeddi ar-lein yw sefydlu Cristnogaeth21 yn 2008. O Ebrill 2016 cyhoeddwyd Agora ar-lein gan roi lle i erthyglau sy'n trafod Cristnogaeth mewn ffordd radical a chyfoes.

Cyn cloi dylid dwyn sylw at Gair y Dydd sy'n darparu deunydd defosiwn dyddiol ar gyfer pob dydd o'r flwyddyn. Mae chwe phrif enwad Cymru yn ei gyhoeddi ac mae'n haeddu cefnogaeth pob aelod. Os nad ydym yn cael digon o arlwy crefyddol ar y tonfeddi, mae yna gyhoeddiadau i'w cael o hyd i'n cefnogi yn ysbrydol. Mater o'u defnyddio yw hi neu eu colli am byth. Awn ati ar frys rhag 'cywilyddio'r tadau yn eu heirch'.



## gobaith.cymru

Cyngor Ysgolion Sul

Emynau a chaneuon mawl i'w lawrlwytho am ddim


Tybed a fyddwch chi weithiau'n chwilio am eiriau emynau Cymraeg i'w hargraffu neu eu taflunio er mwyn eu defnyddio mewn addoliad? Neu tybed hoffech chi wybod a oes cyfieithiad Cymraeg ar gael o emyn Saesneg? Efallai y gall gwefan gobaith.cymru eich helpu. Dyma wefan sy'n cynnwys dros 1,400 o emynau a chaneuon Cristnogol traddodiadol a chyfoes ynghyd â ffeiliau PowerPoint i'w lawrlwytho. Gellir lawrlwytho geiriau emynau gan gynnwys holl emynau *Caneuon Ffydd* ac mae cyfieithiadau Cymraeg llai adnabyddus i'w cael hefyd o emynau fel *Amazing grace* a *My hope is built on nothing less*. Mae'r cyfieithiadau o emynau mwy diweddar yn cynnwys rhai mewn arddull draddodiadol i'w canu ar emyn-dôn megis *Brother, sister let me serve you* yn ogystal â rhai mewn arddull gwbl gyfoes, yn eu plith nifer a gyfansoddwyd yn ystod y pandemig.

Mae modd lawrlwytho'r holl emynau o'r wefan am ddim, ond mae angen caniatâd ar eglwysi i daflunio neu argraffu pob emyn sydd o dan hawlfraint. Dylid cofrestru gyda'r CCLI (Christian Copyright Licensing International) ac yna cysylltu â nhw'n flynyddol i nodi'r defnydd a wnaed o'r geiriau gan nodi rhif CCLI y geiriau Cymraeg.

Yn ogystal â bod yn llwyfan di-elw ar gyfer rhannu emynau a chaneuon Cymraeg, mae gobaith.cymru hefyd yn gronfa ddata gynhwysfawr o gyfieithiadau cydnabyddedig ac yn wasanaeth rhad ac am ddim i gyfieithwyr a pherchnogion hawlfreintiau'r emynau trwy weinyddu'r broses o awdurdodi cyfieithiadau a'u hyrwyddo'n ganolog. Y nod yw hyrwyddo'r cyfieithiadau a awdurdodwyd gan berchnogion yr hawlfraint ar ran yr awduron.

Mae'r broses o dderbyn emynau gwreiddiol Cymraeg a chyfieithiadau yn un barhaus ac rydym bob amser yn hapus i dderbyn geiriau emynau, carolau a chaneuon i'w hystyried ar gyfer eu cynnwys ar y wefan. Mae'n diolch yn fawr i ddeiliaid yr hawlfreintiau am eu caniatâd caredig i osod yr emynau ar y wefan. Yn ddiweddar fe ychwanegwyd hefyd y Cyfeiriadur Emynau Cymraeg-Saesneg, sef cronfa ddata o emynau sydd ar gael yn y ddwy iaith, yn gyfieithiadau o'r naill iaith i'r llall (www.gobaith.cymru/emynau-cymraeg-saesneg). Bellach mae dros 780 o emynau wedi eu rhestru ac mae'r nifer yn tyfu o hyd. Os yw'r darllenwyr yn gwybod am emynau sydd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg nad ydynt yn y cyfeiriadur anfonwch air ataf trwy e-bostio delythwyndavies@hotmail.co.uk os gwelwch yn dda.

*Delyth Wyn Davies*



## Gweithredu Dros Blant

Hoffem ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at Gweithredu dros Blant, sydd wedi dod i law ers rhifyn diwethaf y *Gwyliedydd*:

Dienw – £20.00
Salem, Rhyd-y-foel – £150.00
Seion, Llanrhaeadr-ym-Mochnant – £100.00

Anfonwyd cyfanswm o £270.00 yn enw Synod Cymru.

Er gwybodaeth: a fyddwch cystal â sicrhau fod sieciau'n daladwy i Gweithredu dros Blant neu Action for Children. Hefyd, pan fyddwch yn anfon y cyfraniad atom a wnewch chi sicrhau eich bod yn cynnwys eich enw a manylion cyswllt. Mae hyn rhag ofn y byddwn angen cysylltu â chi am ryw reswm a hefyd fel y gallwn anfon nodyn o ddiolch. Os nad ydych am i'ch enw ymddangos yn y *Gwyliedydd*, wrth ymyl eich rhodd, gallwch nodi hyn.
Gyda diolch am bob cyfraniad ac am eich cefnogaeth.
**Marc a Margaret**

Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan
Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden, Gwersyllt, Wrecsam, LL11 4FF
01978 756717
cwrteden@gmail.com

## Y DREFN NEWYDD PAN DDAW SYNOD CYMRU I BEN DDIWEDD AWST ELENI

Dyma rai pwyntiau pwysig y dylai pawb fod yn ymwybodol ohonynt. Rhannwyd y wybodaeth yng Nghyfarfod Cylchdaith Cymru ar 22 Chwefror.

- Mae'r paratoadau yn mynd rhagddynt i sefydlu Synod (Talaith) newydd o fis Medi ymlaen, gyda Chylchdaith Cymru yn un gylchdaith o'i mewn.
- Un newid pwysig yw na fydd y Parchedig Jennie Hurd yn rhan o staff Cylchdaith Cymru o fis Medi ymlaen. Yn hytrach, bydd yn gwasanaethu fel un o ddau Gadeirydd y Dalaith (gyda gofal arbennig am faterion Cymraeg).
- Arolygydd Cylchdaith Cymru fydd y Parchedig Ddr Ian Morris. Bydd yn parhau i fod yn Arweinydd Ardal Morgannwg a bydd hefyd yn Arweinydd Ardal Gwynedd a Môn. Ei gartref fydd y mans ym Mhontarddulais ond bydd hefyd yn aros yn ôl yr angen yn ei dŷ yn Amlwch.
- Bydd y Parchedig Marc Morgan, Gweinidog Awdurdodedig yn yr EF, yn parhau yn Arweinydd Ardal Glannau Maelor ac, yn ogystal, yn gweithredu fel Arweinydd Ardaloedd Dyffryn Clwyd a Dyffryn Conwy. Bydd Cylchdaith Cymru'n parhau i fod yn rhan o'r gweinidogaethau bro yn Ardaloedd Llanrhaeadr, Powys, Morgannwg a Dyffryn Clwyd gyda chymorth y Parchedigion Gwyndaf Richards, Euron Hughes, Evan Morgan a Brian Huw Jones. Bydd y Parchedig Eirlys Gruffydd yn parhau yn weinidog yn Ardal Glannau Maelor, a'r Chwaer Eluned Williams a Mrs Elizabeth Jones yn Arweinyddion Ardaloedd Ceredigion a Meirionnydd a Bathafarn.
- Goruchwylwyr y Gylchdaith fydd Mrs Maryl Rees a Mr Hefin Williams, sef y trysorydd. Efallai y bydd rhagor o oruchwylwyr yn cael eu penodi yn ogystal. Bydd Mr Alun Jones yn Swyddog Eiddo i'r Gylchdaith a bydd angen penodi Swyddog Diogelu.
- Bydd gan y Gylchdaith Dîm Arweinyddiaeth i helpu i lywio pethau, sef ar y cychwyn yr un bobl ag a fu'n gwneud y gwaith yma ar gyfer Synod Cymru a'r Gylchdaith fel y Pwyllgor Gwaith.
- Gall amryw o feysydd eraill sydd ar hyn o bryd yn dod o dan y Synod (Merched Methodistaidd, y Gymdeithas Hanes, Gweithredu dros Blant, Cartrefi Methodistaidd) barhau â'r un gwaith yn enw'r Gylchdaith. Rhan o Gylchdaith Cymru yw'r Cyfarfod Pregethwyr Lleol a bydd trefniadau'r cyfarfod yn parhau.
- Un fantais, o bosib, o dan y drefn newydd yw y bydd llai o bwyllgorau nag o'r blaen, fel y bydd mwy o amser ar gael i ganolbwyntio ar fywyd a gweinidogaeth y Gylchdaith.

# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

### Pendref, Dinbych

**ADDOLI YM MHENDREF**
Yn ystod Ionawr a Chwefror cawsom oedfaon bendithiol dan ofal ein gweinidog y Parchedig Ddr Jennie Hurd, Dilwyn Jones, Royce Warner, Elizabeth Jones, yr Hybarch Bernard Thomas, Enid Davies a'r Parchedig Glyn Thomas. Blaenor mis Ionawr oedd Medwyn Jones gyda Hywel Evans yn gofalu am fis Chwefror. Diolch i Vera Savage am gyfeilio ac i Gwyn Williams am arwain y canu.

**DATHLU**
Yn rhifyn diwethaf y *Gwyliedydd* cyfeiriwyd at y ffaith fod Pendref, Dinbych yn 220 oed eleni. Ar ddydd Sul 30 Ionawr cafwyd "mini ddathliad". Yn ystod yr oedfa cafwyd hanes gan Medwyn am sefydlu'r achos yma yn Ninbych, y paratoi a'r adeiladu cyn agor y capel ar ddydd Gwener 1 Ionawr 1802. Clywsom hefyd benillion a gyfansoddwyd gan weinidog cyntaf y capel, y Parchedig Owen Davies, yn cael eu hadrodd gan Bethan, yna fe ganodd Gwyn, i gyfeiliant Vera, benillion a gyfansoddwyd gan un o feirdd Dinbych, y diweddar annwyl John Glyn Jones ar gyfer y dathliad 200 mlynedd yn 2002.

**CYDYMDEIMLO**
Gyda thristwch cyhoeddwyd marwolaeth Mrs Brenda Mannall, a fu'n aelod ffyddlon yng nghapel Peniel Llanelwy. Roedd Brenda'n ferch i'r diweddar annwyl Herbie Jones. Bu'n weithgar ym Mheniel ac yn drysorydd yr eglwys am flynyddoedd lawer. Oherwydd ei hiechyd, ni fu'n bosibl iddi ymuno â ni yma ym Mhendref. Mae ein cydymdeimlad ni fel eglwys gyda'r teulu

Trist oedd clywed am farwolaeth ein haelod hynaf sef y Parchedig Cledwyn Parry, a fu'n weinidog yma ym Mhendref a Salem rhwng 1973 a 1980. Wedi iddo symud yn ôl i Ddinbych ar ôl ymddeol bu'n ffyddlon a gweithgar yma ac roedd ei brofiad, ei gyngor a'i arweiniad yn amhrisiadwy i ni fel Eglwys. Bydd colled ar ei ôl. Anfonwn ein cydymdeimlad dwys at Catrin, Gwynedd, Siân a'r teulu yn eu colled.

**GOHEBYDD .** MARY JONES

### Bethel, Prestatyn

















**DERBYN AELODAU NEWYDD**
Cawsom wasanaeth arbennig ddiwedd mis Ionawr i dderbyn naw o aelodau newydd. Ein bugail y Parchedig Brian Huw Jones oedd yn gwasanaethu a chroesawyd Mr Tom Elfed Owens, Dr Prydwen Elfed Owens, Mrs Ceri Thomas, Mr Ieuan Roberts, Mrs Carla Joyner a'i dwy ferch fach Beatrice a Francesca, Mr Gwydion Alun, Mrs Llinos Alun a'u mab bach Twm, Mr Gareth Grinvalds, Mrs Jenny Grinvalds a'u dwy ferch fach Olive ac Anna i gyd yn aelodau newydd. Dywedodd y gweinidog nad oedd yn cofio derbyn cynifer o aelodau ar yr un pryd erioed. Roedd pawb wrth eu bodd i'w derbyn i'n plith a hyfryd oedd gweld y capel yn llawn. Roeddem yn ddiolchgar hefyd fod rheolau cadw ar wahân oherwydd Covid wedi llacio ychydig. Cyflwynwyd copi o *Caneuon Ffydd* i'r oedolion a Beibl Newydd y Teulu a gyhoeddwyd fis Hydref diwethaf i'r teuluoedd. Yn ogystal fe gyflwynwyd copi o Feibl Newydd y Teulu i holl deuluoedd yr Ysgol Sul, fel arwydd o'n gwerthfawrogiad o'u ffyddlondeb a'u gwasanaeth i'r Ysgol Sul.

**YR YSGOL SUL**
Rydym wedi mwynhau defnyddio Beibl Newydd y Teulu yn yr Ysgol Sul, gan ddilyn thema Duw yn creu y byd yn ystod y mis diwethaf. Mae'r plant wedi bod yn brysur yn creu gwaith crefft ar y thema a gobeithiwn y byddant yn ailddarllen y storïau adref gyda'u rhieni.

**CYDYMDEIMLO**
Trist iawn yw cofnodi marwolaeth Mrs Elfrys Hughes. Nid oedd wedi gallu mynychu'r oedfaon ers rhai blynyddoedd oherwydd gwaeledd. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Malen, Rhodri ac Owen a'r teulu yn eu colled. Anfonwn ein cydymdeimlad hefyd at deulu Mrs Glenys Savage a fu farw yn ddiweddar. Roedd Mrs Savage yn aelod ffyddlon dros y blynyddoedd ac yn ferch i'r diweddar Mr a Mrs Reuben Parry. Cofion annwyl at y teulu i gyd.

**COFIO'R PARCHEDIG CLEDWYN PARRY**
Roeddem yn drist iawn o glywed am farwolaeth y Parchedig Cledwyn Parry. Gwerthfawrogwyd yn fawr ei wasanaeth o dros 70 mlynedd o bregethu'r Efengyl. Cydymdeimlwn â Gwydion a Llinos a Twm.

**PANED A SGWRS**
Croeso i unrhyw un ymuno â ni ar fore dydd Mercher ar gyfer Paned a Sgwrs. Trwy garedigrwydd cyfeillion Paned a Sgwrs fe anfonwyd gwerth dros £130 o nwyddau ymolchi i ffoaduriaid o Wcráin. Anfonwyd dillad plant a theganau hefyd gan rieni'r Ysgol Sul.

**DYDD GWEDDI BYD-EANG**
Cynhaliwyd ein gwasanaeth ym Methel ar y cyd gydag Eglwys Rehoboth. Paratowyd y gwasanaeth eleni gan ferched Cristnogol Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Penderfynwyd cynnwys y lliwiau glas a melyn ar ein bwrdd addoli eleni i ddangos ein cariad tuag at ein cyfeillion yn Wcráin. Blodyn cenedlaethol Wcráin yw blodyn yr haul a rhoddwyd pecyn bach o hadau blodau haul i bawb i'w plannu fel symbol o obaith Duw at y dyfodol.

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau mawr i Carys, 10 oed, am ennill cystadleuaeth coginio yr Urdd – Cogurdd – yn Ysgol y Llys ac i Beth am ennill y drydedd wobr. Pob lwc i Carys yn y rownd nesaf. Llongyfarchiadau mawr hefyd i Carys, Esme, Beth a Lili ar eu llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd, Cylch Rhuddlan – pedair gwobr gyntaf a dau drydydd. Da iawn chi!

**COFION**
Anfonwn ein cofion annwyl at ein holl aelodau sydd yn gaeth i'w cartrefi oherwydd salwch. Mae Mrs Beryl Hughes wedi cael triniaeth ar ei llygaid yn yr ysbyty ond yn gwella erbyn hyn a Mrs Rowenna Hughes yn gobeithio gadael yr ysbyty a symud i gartref yn yr wythnosau nesaf.

**GOHEBYDD .** GWENDA HUMPHRIES

### Saron, Bethel, Arfon

**ER COF ANNWYL**
Dyma ni i lawr i naw aelod erbyn hyn yn dilyn colli ein hen gyfaill annwyl Mr Morlais Williams. Dioddefodd afiechyd blin am gyfnod hir iawn ac ar ben hynny roedd hefyd wedi colli ei olwg yn llwyr ers amser. Cydymdeimlwn yn fawr â'i weddw, Delyth, ei blant, ei wyrion a'i wyresau, ei chwaer a'r teulu i gyd yn eu colled a'u hiraeth.

**GWELLHAD BUAN**
Anfonwn ein cofion at Mrs Beryl Parry, sydd wedi treulio peth amser yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar ond sydd erbyn hyn wedi cael dod adref. Mae Mr Dafydd Williams wedi cael cyfnod yn Ysbyty Gwynedd unwaith eto, a gofidiwn fod ei briod Olwen yn parhau i fod yn yr ysbyty. Rydym bob amser yn meddwl amdanoch ac yn eich cofio yn ein gweddïau.

**GOHEBYDD .** RJ

### Ebeneser, Treuddyn

**DYDD GWEDDI'R BYD**
Eleni cynhaliwyd y gwasanaeth uchod yn Ebeneser ar brynhawn Sul, Mawrth 6ed, gyda chynrychiolwyr o Gapel y Rhos, Eglwys y Plwyf a Chapel Ebeneser yn cymryd rhan. Thema'r gwasanaeth oedd 'Myfi sy'n gwybod fy mwriadau a drefnaf ar eich cyfer' ac fe'i paratowyd gan Ferched Cristnogol Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Gan gofio am y sefyllfa ddychrynllyd sydd yn Wcráin, dechreuwyd y gwasanaeth gyda gweddi ychwanegol gan y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans.

**PROFEDIGAETH**
Cynhaliwyd dau wasanaeth angladdol yn Ebeneser yn ystod mis Chwefror. Ar Chwefror 16eg y bu angladd Mr Ivor Rogers, pan wasanaethwyd gan ein gweinidog y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans gyda Mrs Margaret Roberts wrth yr organ. Cydymdeimlwn yn ddwys â'r teulu yn eu colled.

Ar Chwefror 18fed cynhaliwyd gwasanaeth angladd Mr George Jones, gŵr y ddiweddar Hetty a thad annwyl Barbara a Christopher. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â Barbara, Christopher a'r holl deulu yn eu galar a'u colled. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parchedig Eirlys Gruffydd Evans gyda Mrs Margaret Roberts wrth yr organ.

**GOHEBYDD .** GLENYS DAVIES



# O'r Pen Yma gan Angharad Tomos

Mi fyddaf yn lecio'r amser yma o'r flwyddyn – amser deffroad, amser ail eni, a rydw i yn dathlu pen-blwydd fy mab hefyd. Mae amser y Pasg yn amser adnewyddiad ysbryd. A dwi am dynnu eich sylw at rywbeth ddigwyddodd ym mis Mai 1926, yma ym Mhenygroes, bron i ganrif yn ôl.

Wedi'r Rhyfel Mawr, roedd merched wedi cael digon ar ddioddefaint a cholledion, a dyma nhw'n penderfynu y byddent yn ymdrechu i roi diwedd ar ryfel. Am uchelgeisiol, meddyliwch! Nid oeddent am weld cenhedlaeth o ferched yn dioddef yr hyn wnaethant hwy. Aethant o'i chwmpas mewn ffordd gwbl ymarferol. Eu nod oedd galw ar arweinwyr gwledydd i ddod ynghyd i drafod anghydfod yn hytrach na chodi'r cledd. Enw'r ymgyrch oedd 'Hedd Nid Cledd'. Rhoesant eu gwahaniaethau crefyddol a gwleidyddol i'r naill du, a chyd-weithio i gasglu enwau ar ddeiseb o blaid y gofyn hwn. Roeddent am gasglu cymaint â phosib o enwau merched eraill – hyn mewn oes lle nad oedd ffôn na ffacs na rhyngrwyd. Cerdded o dŷ i dŷ wnaethant yn casglu enwau a gwnaeth pawb ei rhan. Yna, dyma nhw'n trefnu gorymdaith – o bob rhan o Brydain – merched yn dod at ei gilydd mewn gwahanol ganolfannau yng ngwledydd Prydain a dechrau gorymdeithio i Lundain. Cafwyd rali fawr yn Hyde Park ym 1926, efo tua 25 o lwyfannau, ac ar un llwyfan, roedd merched yn annerch yn Gymraeg.

Cychwynnodd gorymdaith heddwch merched Gogledd Cymru o'm pentref i, yma ym Mhenygroes. Roedd yn fan addas – o flaen y Neuadd Goffa, achos yno mae y gofgolofn i gofio'r meirw, yr un efo englyn enwog R. Williams Parry arni.

O Gofadail gofidiau tad a mam!
Tydi mwy drwy'r oesau,
Ddysgi ffordd i ddwys goffáu
Y rhwyg o golli'r hogiau.

Ar y dydd hwnnw o Fai, daliai'r trefnwyr eu gwynt – tybed faint o ferched fyddai'n dod? Wrth edrych ar griwiau yn dod o Dalysarn, o Nantlle, o Lŷn, o Garmel, cododd eu gobeithion. Yn y diwedd, roedd 2,000 o ferched yn llenwi Sgwâr y Farchnad – torf na welwyd ei thebyg. Rydw i mor falch iddynt fentro. Dwi mor falch iddynt beidio ildio i anobaith. Dwi mor falch iddynt benderfynu gwneud rhywbeth ymarferol i herio trais. Oherwydd hynny, rydym wedi gosod llechen ar y Neuadd Goffa i gofio'r achlysur.


Bob tro yr af heibio iddo, cofiaf ddewrder y merched, ac mae yn fy ysbrydoli i ddyfalbarhau. Mae yna ffordd amgen i sicrhau heddwch.

**Delwedd trwy garedigrwydd Archifau a Chasgliadau Arbennig, Prifysgol Bangor, Llsgr Bangor 37223**



# Y PARCHEDIG CLEDWYN PARRY

## (1924 – 2022)





Ganed Cledwyn yn Moelydd, Castle Street, Caernarfon. Fo oedd bach y nyth – y nawfed o naw plentyn a aned i Owen ac Anne Jane Parry. Canolbwynt bywyd y teulu oedd y capel sef Capel Wesla Ebeneser yng Nghaernarfon. Roedd Cledwyn yn aml yn sôn am ei atgofion o'r teulu cyfan yn mynychu'r oedfaon bob Sul, yn ogystal â'r Ysgol Sul. Ac yn ystod yr wythnos, byddent yn mynychu'r cyfarfod gweddi, y seiat a'r Band of Hope. Does rhyfedd i ddau o'r brodyr – Geraint a Cledwyn ei hun – dderbyn galwad i fod yn weinidogion Wesla maes o law.

Roedd bywyd ar aelwyd Castle Street yn brysur iawn. Roedd mam Cledwyn yn darparu cinio bob dydd i nifer o weithwyr y dref. Byddai Cledwyn yn cael ei ddifetha'n lân gan yr ymwelwyr a gwyddai i'r dim sut i gael tip neu ddau ychwanegol drwy gynnig ffeindio lle saff i storio'u beiciau!

Un atgof byw oedd gan Cledwyn oedd yr hwyl gafodd yn cymryd rhan yng Nghantata'r Adar gyda Nancy ei chwaer gan ganu a pherfformio yn y capel a hyd yn oed yn y castell ei hun. Byddai wrth ei fodd yn canu "Gwelodd lencyn rosyn rhudd" gan ddynwared ei lais soprano bachgennaidd hyd at ddiwedd ei oes! Atgof arall o'i blentyndod oedd cael mynd ar wyliau o bryd i'w gilydd i Gefn Gryddyn yn Seion Llanddeiniolen at ei daid a'i nain. Tŷ siambr oedd y tŷ ac un o orchwylion Cledwyn a Nancy ei chwaer fyddai nôl dŵr o'r ffynnon. Dyddiau dedwydd da!

Mae un digwyddiad adawodd ei farc arno am byth – yn llythrennol! Pan oedd oddeutu pum mlwydd oed, syrthiodd oddi ar wal y cei gan falu ei fraich chwith yn deilchion. Bu am agos i flwyddyn yn yr ysbyty ac am rai misoedd yn ei wely gartre yn Castle Street gyda Tim y sbaniel yn ei amddiffyn rhag popeth gan gynnwys ymweliadau'r doctor druan! Fel canlyniad i'r ddamwain yma, gorfu iddo ymgyfarwyddo â bod yn fachgen llaw dde ac yntau'n llaw chwith yn naturiol.

Pan oedd Cledwyn yn ddeuddeg oed, symudodd y teulu i Gelert Street. Dyma'r adeg i Cledwyn ennill ysgoloriaeth i'r ysgol ramadeg leol a chofiai gael ei gludo drwy'r dref ar ysgwyddau'r plant eraill i ddathlu ei lwyddiant.

Pregethodd ei bregeth gyntaf yn ddim ond dwy ar bymtheg oed a chofiai seiclo i'r gwasanaeth pwysig yma o Gaernarfon i Dŷ'n Lôn ar ddiwrnod braf o haf gan deimlo'n hynod nerfus. Wedi cyrraedd, a dechrau pregethu, fodd bynnag, teimlai ei fod ymhlith ffrindiau a mwynhaodd y profiad. Yn ddiweddar iawn, dychwelodd yno efo'i fab Gwynedd yn y car, a dywedodd ei fod yn teimlo fod y cylch wedi cau.

Er yn blentyn academaidd, daeth yn adeg yr Ail Ryfel Byd, ac o'r herwydd, aeth Cledwyn ddim yn ei flaen i'r brifysgol. Fel ei bum brawd – Thomas Henry, Louis, Wil, Geraint a Dick – ymatebodd Cledwyn i alwad y wlad ac ymunodd â'r llu awyr gan wasanaethu yn y dwyrain pell. Bu'r profiadau a gafodd yn teithio'r byd yn ddylanwad mawr arno am weddill ei fywyd.

Wedi i'r rhyfel ddod i ben, aeth Cledwyn yn fyfyriwr i Goleg Handsworth sef Coleg Diwinyddol y Methodistiaid ger Birmingham. Mae'n rhaid ei fod yn parhau i deimlo ymhell iawn oddi cartref er gwaethaf bod wedi dychwelyd o'r Dwyrain Pell achos y geiriau ysgrifennodd ar ei ddrws oedd "Pa fodd y canwn gerdd yr Arglwydd mewn gwlad ddieithr?"

Bu'n gweinidogaethu mewn sawl rhan o Gymru dros y blynyddoedd: Cricieth, Rhosllannerchrugog, Conwy, Llanbedr Pont Steffan, Blaenau Ffestiniog, Bethesda, Dinbych, Rhuthun a'r Rhyl. Parodd ei weinidogaeth am dros 70 o flynyddoedd gyda bron i hanner can mlynedd o'r rheiny yn Nyffryn Clwyd.

Cyfarfu Cledwyn ag Eunice mewn cynhadledd Fethodistaidd yn y Bermo a phriododd y ddau yn 1953 yng nghapel Bethel, Deganwy. Cawsant dri o blant, Catrin, Gwynedd a Siân, a bu Cledwyn yn dad gofalgar a charedig iawn i'r tri. Tyfodd y tri a phriodi. Mewn amser daeth wyrion ac wyresau i lonni calonnau Eunice a Cledwyn a threuliodd Steffan a Gwydion hafau hirfelyn tesog yng nghwmni Nain a Taid yn y Rhyl. Bu farw Nain Rhyl yn 1997 a symudodd Cledwyn i Ddinbych i fod yn nes at Siân a'i fab yng nghyfraith "y Cledwyn arall" a'u plant hwythau, Lliwen, Caeron a Mared. Roedd Taid yn rhan bwysig o'u bywydau ac ymfalchïai yn eu llwyddiannau wrth iddynt dyfu.

Roedd Cledwyn yn ŵr eangfrydig a chanddo ddiddordebau lu. Byddai'n mwynhau darllen, gwrando ar gerddoriaeth glasurol, gwylio ei hoff dîm pêl-droed (sef Lerpwl!) yn chwarae, mynd am dro a than yn ddiweddar iawn, prynu ceir! Roedd cŵn hefyd yn bwysig iawn iddo a byddai'n aml yn adrodd hynt a helynt cŵn ei ieuenctid, Tim a Robin a Cymro. Byddai pob ci yn hapus iawn yng nghwmni Cledwyn ac yn ei garu'n angerddol. Maen nhw'n dweud bod cŵn yn rhai da am adnabod cymeriad – ac yn sicr, roedd Cledwyn yn meddu ar gymeriad addfwyn, rhadlon a charedig.

Ar ôl blynyddoedd o ofalu am Eunice, a ddioddefodd o Multiple Sclerosis, bu symud i Ddinbych yn gychwyn ar gyfnod newydd yn ei hanes. Cafodd gyfle yn y cyfnod hwn i deithio gyda'i frawd a'i chwaer-yng-nghyfraith, Geraint a Blodwen. Bu Cledwyn yn ffodus i allu byw yn annibynnol tan y flwyddyn olaf gydag ymweliadau dyddiol y "Cledwyn arall" yn caniatáu iddo fwynhau byw yn ei gartref ei hun cyn hired â phosib. Yn y pen draw ei ddewis o oedd symud i Goed Craig, Cartref MHA yn Llandrillo yn Rhos gan fod angen gofal mwy arbenigol arno. Roedd gan y staff feddwl y byd o Cledwyn ac roeddent yn fawr eu gofal ohono. Dymuna'r teulu ddiolch yn fawr iddynt.

ARFON JONES

## Ebeneser, Dolgellau

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau i Jane a Bryngwyn Thomas ar enedigaeth ŵyr ac wyres bach newydd, Nudd a Mabli. Ganwyd yr efeilliaid i Llŷr a Federica yng Ngwlad yr Haf ym mis Ionawr. Brawd a chwaer fach i Mali, Ilan a Nona.



**DYMUNIADAU GORAU**
Rydym yn parhau i feddwl am y Chwaer Eluned Williams wrth iddi barhau gyda'i thriniaeth yn dilyn y llawdriniaeth a gafodd cyn y Nadolig. Dymunwn wellhad llwyr a buan iddi, gan edrych ymlaen at ei chroesawu yn ôl atom.

Rydym yn falch o glywed bod Richard, mab Marian a Peter Morgan a brawd Catherine, yn gwella ar ôl treulio cyfnod yn Ysbyty Bronglais ym mis Rhagfyr.

**GOHEBYDD .** BERYL NORGROVE

## Bethel, Rhiwbeina

**OEDFAON**
Yn ystod mis Chwefror cawsom gyfle i groesawu'r Parchedig Dafydd Andrew Jones, Mr Gwyndaf Roberts a Mr Ion Thomas ac ar Chwefror 13 roedd y gwasanaeth Cymun yng ngofal ein gweinidog y Parchedig Evan Morgan.

**CARTREF NEWYDD**
Yn ddiweddar symudodd un o'n haelodau, Mrs Olwen Williams, o'r Eglwys Newydd i ogledd Lloegr er mwyn bod yn nes at ei theulu. Rydym yn dymuno'n dda iddi yn ei chartref newydd.

**GŴYL DEWI**
Ar Fawrth y cyntaf bu cyfle i ymuno â Chymdeithas Gymraeg Rhiwbeina i ddathlu Gŵyl Dewi. Cynhaliwyd taith gerdded o gwmpas Rhiwbeina yn ystod y bore ac yna cawsom fwynhau paned, brechdanau a chacennau blasus yn y capel. Mae'r Gymdeithas Gymraeg yn cynnal cyfarfod unwaith y mis ym Methel, ar drydedd nos Lun y mis.

**DYDD GWEDDI**
Yn Eglwys Tabernacl y cynhaliwyd cyfarfod y Dydd Gweddi Byd-eang ar 4 Mawrth. Diolch i Mair Jenkins a Shirley Williams am gynrychioli Bethel yn y gwasanaeth hwn.

**GOHEBYDD .** GWENDA FRANCIS

## Ardal Bathafarn

**DATHLU**
Llongyfarchiadau calonnog iawn i Edwina a Rob ar ddod yn nain a taid eto. Ganwyd merch fach i Edward a Gaby, sef Cassia, chwaer fach i Ernie. Pob bendith ar y teulu bach draw yn Llundain. Dymunwn yn dda hefyd i Susan James sydd wedi dathlu pen-blwydd arbennig.

**CYDYMDEIMLO**
Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant at Audrey yn ei phrofedigaeth sydyn o golli nith sef Iona, Wern Ddu gynt, Gwyddelwern. Yr un yw ein cydymdeimlad â theulu'r diweddar Barchedig Cledwyn Parry a fu'n arolygwr hoffus arnom yn y 1980au. Braf oedd cael ei gwmni pan oeddem yn dathlu 150 mlwyddiant capel Bathafarn. Cofiwn hefyd am anwyldeb ei ddiweddar briod, Eunice. Meddyliwn am bawb sydd mewn hiraeth am anwyliaid.

**OEDFAON**
Yn ystod Ionawr a Chwefror bu'r Parchedigion Marc Morgan a Gwyndaf Richards, a hefyd Elizabeth Jones a Gwenda Humphries, yn gwasanaethu ym Mathafarn a Glyndyfrdwy a Chymun dan ofal Elizabeth yng Nglyndyfrdwy. Diolch i Enid, Ann a Rhian am eu gwaith yn cyfeilio ac i Elved a Rhodri am eu cyfraniad. Diolch i bawb am eu cefnogaeth a'u ffyddlondeb.

**MERCHED METHODISTAIDD**
Edrychwn ymlaen at Ebrill 9fed pan gynhelir cyfarfod Merched Methodistaidd yng ngwledydd Prydain, gydag Angharad Tomos yn wraig wadd. Bydd yn braf cael cymdeithasu ar ôl dwy flynedd anodd o fod ar wahân.

**COFION**
Anfonwn ein cofion anwylaf at Glyn a Gladwen Jones, Dilys Jones, Cyril Jones, Olwen Griffiths, Lorna Wynne, Iolo Evans, Gwyn Atkinson a Margaret Hughes. Meddyliwn amdanoch a gobeithio y bydd y gwanwyn yn rhoi hwb i bawb nad yw wedi bod yn dda.

**GOHEBYDD .** ELIZABETH JONES

## Tabernacl, Llanfyllin

**GWASANAETH GŴYL DEWI**
Trefnwyd gwasanaeth gan ein gweinidog i ddathlu Gŵyl Dewi a chymerwyd rhan gan rai o aelodau'r Gymdeithas Gymraeg. Canwyd nifer o emynau gwladgarol a darllenwyd darnau o farddoniaeth addas ar gyfer yr achlysur.

**CYDYMDEIMLO**
Mae ein cydymdeimlad gyda thri o deuluoedd y Tabernacl sydd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar. Bu farw unig frawd Mrs Enid Morris a Mrs Linda Davies. Bu farw mab yng nghyfraith Gareth a Mary Lewis yn annisgwyl hefyd. Pob cydymdeimlad a chofion atynt.

**DYDD GWEDDI BYD-EANG**
Cynhaliwyd y gwasanaeth yn Eglwys Sant Myllin eleni a chymerwyd rhan gan gynrychiolwyr o eglwysi'r dref. Eleni roedd y gwasanaeth wedi cael ei lunio gan bwyllgorau Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Thema'r gwasanaeth oedd 'Myfi sy'n gwybod fy mwriadau a drefnaf ar eich cyfer' (Jeremeia 29:11) Roedd rhannau o'r gwasanaeth yn sefydlu ein meddyliau ar y digwyddiadau erchyll yn Wcráin. Ar derfyn yr oedfa fe safodd y gynulleidfa tra chwaraeawyd anthem genedlaethol Wcráin ar yr organ.

**GOHEBYDD .** ALWENA FRANCIS



## Salem, Rhyd y Foel

**PROFEDIGAETH**
Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth y Parchedig Cledwyn Parry ar Chwefror 10fed yn Ysbyty Glan Clwyd. Bu'n weinidog ac uwchrif ffyddlon a mawr iawn ei barch yn ein hardal am flynyddoedd lawer a phawb ag atgofion da amdano. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'r teulu yn eu colled.

**BANC BWYD**
Rydym yn parhau i gasglu nwyddau yn wythnosol tuag at y banc bwyd lleol, ac yn ddiolchgar i'n haelodau am eu cyfraniadau i'r achos teilwng yma.

**PEN-BLWYDD HAPUS**
Llongyfarchiadau i un o'n haelodau ffyddlon sef Wyn Lloyd Roberts, Ty'n Ddôl ar ddathlu pen-blwydd arbennig ar Fawrth 21ain. Mae Wyn yn casglu'r offrwm ac yn cymryd rhan yn y capel o bryd i'w gilydd ac mae bob amser yn barod ei gymwynas.

**DYDD GWEDDI'R BYD**
Cawsom wasanaeth arbennig yng nghwmni ein gweinidog y Parchedig Jennie Hurd ar ddydd Sul 6ed o Fawrth, o dan ofal y merched. Paratowyd y gwasanaeth eleni gan ferched Cristnogol Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Cafodd saith cannwyll eu cynnau yn ystod y gwasanaeth, un ar gyfer pob un o saith rhanbarth teulu Dydd Gweddi'r Byd sef Affrica, Asia, Gogledd America ac ynysoedd y Caribî, Ewrop, America Ladin, y Dwyrain Canol a'r Pasiffig. Roedd pawb yn meddwl yn arbennig wrth gwrs am y sefyllfa fregus a thrist iawn sydd yn bodoli yn Wcráin ac fe gynhwyswyd gweddi arbennig a baratowyd i'w gweddïo yng ngwasanaethau'r Dydd Gweddi:



Dduw'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol, mae ein meddyliau a'n gweddïau gyda'n chwiorydd a'n brodyr yn Wcráin a thrigolion y gwledydd cyfagos yn eu hofn a'u trallod. Gweddïwn hefyd dros holl ranbarthau eraill y byd lle mae gwrthdaro, aflonyddwch neu ormes. Gweddïwn y bydd cymod yn goresgyn casineb, heddwch yn gorchfygu rhyfel, gobaith yn disodli anobaith ac y cyflawnir dy gynlluniau ar gyfer y byd a ni ei bobl. Amen.

**GOHEBYDD .** SIÂN PRICE

## Eglwys Unedig Colwyn

**OEDFAON**
Cawsom y pleser o dreulio misoedd Rhagfyr, Ionawr a Chwefror gyda'n cyfeillion yn Ebeneser, Hen Golwyn. Cawsom amser bendithiol a difyr yn eu cwmni. Rydym yn edrych ymlaen at eu croesawu hwythau atom ni yn Horeb drwy gydol mis Mawrth.

**DYDD GWEDDI'R BYD**
Unwaith eto cynhaliwyd y cyfarfod drwy Zoom. Y thema oedd 'Myfi sy'n gwybod fy mwriadau a drefnaf ar eich cyfer'. Diolch i bawb a fu'n trefnu a chymryd rhan yn y gwasanaeth.
**GOHEBYDD .** RHIANNON JONES

## Shiloh, Tregarth

**DYMUNIADAU GORAU**
Yn ystod mis Ionawr bu'r Parchedig Richard Gillion yn wael yn yr ysbyty a diolchwn ei fod yn gwella erbyn hyn. Dymunwn i chi iechyd a nerth, Richard. Braf iawn oedd cael cydaddoli dan arweiniad Richard ar nos Sul y 6ed o Fawrth a dathlu'r Cymun Bendigaid. Diolchwn hefyd i bawb a fu'n ein harwain yn y gwasanaethau ers dechrau'r flwyddyn, sef Huw Pritchard, Ffion Rowlinson, Dafydd Coetmor Williams, Geraint Roberts, Dewi Morris, R.O. Jones ac Ellie Jones. Diolch i chi i gyd am eich cwmni a'ch arweiniad mewn amser mor ansicr i'r byd rydan ni'n byw ynddo.

**PEN-BLWYDD HAPUS**
Ar Chwefror 10 dathlodd Huw Morris Jones, Tal y Cae, ei ben-blwydd yn 21 oed. Ar hyn o bryd mae'n fyfyriwr yn ei drydedd flwyddyn yn astudio Pensaernïaeth ym Mhrifysgol Lerpwl. Bu Huw a'i frawd Tomos yn driw iawn i'r Ysgol Sul yn Shiloh a phob amser yn barod i gymryd rhan yn y Gwasanaethau Teulu. Llongyfarchiadau mawr i ti Huw a phob dymuniad da i'r dyfodol.

**CYDYMDEIMLO**
Bu farw un o'n haelodau sef Ronnie Hughes, Seion, Llanddeiniolen ar Chwefror 21. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf gyda'i briod Gwenda a'r meibion Bryn, Dilwyn ac Euron ynghyd â'r holl deulu. Cynhaliwyd ei angladd yn Shiloh ar Fawrth 3.

O Seion collwyd Ronnie – colli'r wên
Colli'r hwyl a'r miri;
llydan iawn ein colled ni,
anodd – heb fodd i'w lenwi.
**Tecwyn Owen**

*Gair am Ronnie gan ei gyfaill Robin Jones:-*

Colled fawr i ni fel Ardal ac enwad oedd colli ein cyfaill Mr Ronnie Hughes mor sydyn yn ddiweddar. Roedd Ronnie yn Wesla o'r Wesleaid ac ar hyd ei oes bu'n ymddiriedolwr ac yn gynrychiolydd ar Gynghorau a Phwyllgorau yr Eglwys Fethodistaidd, gan ein cynrychioli sawl tro yn y Gynhadledd Fethodistaidd. Roedd pob gweinidog Wesla yn gyfaill ac yn arwr mawr iddo, a phob un yn gawr o bregethwr. Er cymaint y golled i ni oll, mae'r golled yn llawer mwy i'w deulu oedd mor annwyl yn ei olwg a chydymdeimlwn yn fawr â nhw yn eu colled a'u hiraeth. Diolch am gael nabod Ronnie a chael cydweithio efo fo yn yr Eglwys.

**GOHEBYDD .** GWENDA DAVIES

# Ar y graig hon yr adeiladaf fy Eglwys

*gan y Parchedig Eirlys Gruffydd-Evans*

Ar lan ogledd orllewinol Môr Galilea mae lle o'r enw Tabgaha. Yr hen enw arno oedd Heptapegon neu Saith Ffynnon. Mae'r ffynhonnau hyn yn llifo i'r môr a'r dyfroedd ohonynt yn gyfoethog mewn algâu a'r rheini yn denu pysgod i ddod yn gymharol agos i'r lan. Ond nid am y ffynhonnau y mae Tabgaha yn enwog ond am mai yn y fan yma y digwyddodd y wyrth o borthi'r pum mil.

Ychydig bellter o Tabgaha, ar lan y môr, mae eglwys Sant Pedr. Nid oes llanw a thrai yn y môr ac mae'r tonnau bas yn anwesu graean garw'r traeth wrth dorri'n dyner arno. Dyma fan lle mae yna dawelwch rhyfeddol sy'n annog rhywun i fyfyrio.

Cred rhai mai ger y fan yma y gwelodd Iesu ei ddisgyblion am y tro cyntaf, yn tynnu'r cychod i'r lan, ac iddo eu galw i'w ddilyn. Mae tystiolaeth fwy pendant mai dyma'r fan y ffarweliodd Iesu â'i ddisgyblion (Ioan 21:1-17). Codwyd eglwys yma gyntaf yn y bedwaredd ganrif a'i galw yn Eglwys Uchafiaeth Pedr. Dros y blynyddoedd dadfeiliodd yr eglwys ond fe'i hailgodwyd yn 1933. Oddi fewn i'r adeilad gwelir darn o graig yn dod i'r wyneb o flaen yr allor a gelwir hwn yn Fwrdd Crist (Mensa Christi) am y credir mai ar y graig hon y rhoddodd Iesu fara a physgod wedi eu coginio yn frecwast i'r disgyblion (Ioan 21:12-13).

Yn yr adnodau sy'n dilyn cawn Iesu yn gofyn tair gwaith i Pedr a oedd yn ei garu. Teimlwn pa mor ddwys yw'r gofyn, cymaint o bwysau sy'n cael ei osod ar Pedr ac yntau'n tristáu ac yn ansicr sut i ymateb i'r fath gwestiynu. Wedi atebion cadarnhaol Pedr cawn anogaeth Iesu i borthi'r ŵyn a bugeilio a phorthi'r defaid. Yna daw'r geiriau "Canlyn fi". Dyma adlais o'r cyfarfyddiad cyntaf hwnnw a chychwyn y profiad cwbl arbennig o fod yn ddisgybl i Iesu. Roedd Ioan, awdur y Bedwaredd Efengyl, yn dyst i'r pethau hyn ac yn gorffen ei waith gyda'r digwyddiad arbennig yma ar lan Môr Galilea. Yn y graean rhwng yr eglwys a'r môr, gwelir tair calon wedi eu cerfio o garreg ac yn symbolau o'r tair gwaith y gofynnodd Iesu i Pedr a oedd yn ei garu.

Ni all neb edrych ar y meini bywiol hyn heb gofio am eiriau'r emynwyr sy'n sôn am galonnau caled sydd angen eu torri. Yr unig beth a all eu torri yw cariad. Cariad yw'r graig y sylfaenwyd yr eglwys arni a phan fydd hi'n gwyro oddi wrth y cariad yma nid yw'n gwneud ei gwaith yn iawn. Ni all borthi a bugeilio'r ŵyn a'r defaid am ei bod hi'n rhy brysur yn adeiladu teyrnas iddi hi ei hun yn y byd hwn. Mae caru yn golygu gwasanaethu. Fel y bu i Iesu borthi'r tyrfaoedd a pharatoi cynhaliaeth i'w ddisgyblion, rhaid i ninnau, ei ddisgyblion heddiw, fod yn barod i garu ac i rannu bara'r bywyd gyda'n cyd-ddyn.



# HIRAETH

*gan Gareth Blainey*

Mae teimladau o hiraeth wedi ysbrydoli cyfansoddwyr cerddoriaeth glasurol ar hyd y canrifoedd. Enghraifft nodedig o hyn yw'r pumed o saith symudiad "Ein deutsches Requiem" – Offeren I'r Meirw mewn Almaeneg – Johannes Brahms. Ychwanegodd Brahms y symudiad hwn sydd ar gyfer unawdydd soprano, corws a cherddorfa at y gwaith ym 1868 er cof am ei fam a fu farw dair blynedd ynghynt. Defnyddiodd y cyfansoddwr eiriau o'r Efengyl yn ôl Ioan ar ddechrau'r symudiad a'r cyfieithiad Cymraeg o'r geiriau yw 'Felly chwithau, yr ydych yn awr mewn tristwch. Ond fe'ch gwelaf chwi eto, ac fe lawenha eich calon, ac ni chaiff neb ddwyn eich llawenydd oddi arnoch' (Ioan 16:22). Aeth Brahms i'r Hen Destament wedyn ac i lyfr Eseia: 'Fel y cysurir plentyn gan ei fam byddaf fi'n eich cysuro chwi' (Eseia 66:13). Mae'r gerddoriaeth sy'n gyfeiliant i'r geiriau hyn yn deimladwy iawn.

Hiraeth am le sydd yn Nhrydedd Symffoni y cyfansoddwr o Rwsia Sergei Rachmaninov. Gadawodd Rachmaninov ei famwlad am byth ychydig ar ôl y chwyldro yno ym 1917 ac ar ôl iddo lofnodi llythyr yn ymosod ar y gyfundrefn Sofietaidd ym 1931 gwaharddwyd ei gerddoriaeth yn Rwsia am gyfnod. Erbyn hynny roedd Rachmaninov wedi ymgartrefu yn yr Unol Daleithiau ac yno ym 1936 y perfformiwyd ei Drydedd Symffoni am y tro cyntaf. Er ei fod yn byw mor bell o'i wreiddiau roedd Rwsia'n dal yn agos at ei galon ac mae hynny'n amlwg yn yr alawon a rhythmau Rwsiaidd eu naws yn y symffoni, yn enwedig rhythmau dawns y symudiad olaf.

Ar nodyn ysgafnach, hiraeth cerddorion eraill am eu cartrefi a'u teuluoedd ysgogodd Franz Joseph Haydn i gyfansoddi ei "Abschiedsymphonie" – Symffoni Ffarwel – ym 1772. Yr adeg honno roedd cyflogwr Haydn y Tywysog Nikolaus mor hoff o'i balas yn Eszterháza yn Hwngari fel ei fod yn treulio mwy o amser yno bob blwyddyn. Yn wahanol i Haydn doedd hi ddim yn bosibl i gerddorion eraill y llys gael eu teuluoedd yno gyda nhw ac aethon nhw'n isel eu hysbryd. Ymateb y cyfansoddwr oedd llunio symffoni yn cynnwys symudiad olaf trawiadol. Yn ystod y symudiad araf hwn diffoddodd y naill aelod o'r gerddorfa ar ôl y llall y gannwyll oedd ar eu standiau ar gyfer eu copïau o gerddoriaeth a sleifio oddi ar y llwyfan, gan adael dim ond Haydn ac un feiolinydd arall ar ôl. Wrth iddyn nhw baratoi i adael hefyd deallodd y Tywysog y neges a'r diwrnod wedyn rhoddodd ganiatâd i'r cerddorion fynd adref!



©csakisti/123RF.COM

Eszterhâza

# ACHUB Y DAFARN OND BETH AM YR ADDOLDY?

*gan Glyn Tomos*

Pe byddai gennych arian i'w sbario lle fuasech chi yn ei fuddsoddi yn lleol? Mewn rhai cymunedau ar draws Cymru rydym wedi gweld ymgyrchoedd llwyddiannus iawn i godi arian ar gyfer achub tai tafarn sydd wedi cau. Rydym yn sôn am gasglu symiau o hyd at hanner miliwn, a'r arian hwnnw wedi ei gyfrannu yn lleol a chenedlaethol a hyd yn oed o dramor. Mae'r arian hwn nid yn unig yn mynd tuag at brynu'r adeilad, ond hefyd ar gyfer gwaith atgyweirio. Mae'n ymddangos mai un o'r prif resymau dros brynu'r tafarndai hyn yw bod trigolion y gymuned leol yn gweld colli man canolog o fewn y pentref i ddod at ei gilydd i gymdeithasu a chynnal gweithgareddau, a bod ailagor yr adeiladau yn fodd i adfer y sefyllfa.

Yr hyn sydd yn ddiddorol yw mai sôn rydym am brynu tafarndai sydd wedi cau yn barod. Mae hyn ynddo'i hun yn codi'r cwestiwn, pam bod y tafarndai wedi mynd i'r wal yn y lle cyntaf. Yr her i'r ymgyrchoedd hyn yw nid yn unig cyrraedd eu targed



ariannol, ond ar yr un pryd sicrhau cynllun busnes fydd yn sail i lwyddiant y busnes yn y dyfodol. I sicrhau hynny bwriad rhai yw codi estyniad o'r newydd ac ychwanegu bwyty a darpariaeth lletya er mwyn codi incwm ychwanegol i gynnal y busnes. Mae'r cymunedau sydd ynghlwm â'r ymgyrchoedd hyn i'w llongyfarch yn fawr ar eu llwyddiant a'r gobaith yw y gwelwn y mentrau yn mynd o nerth i nerth.

Yr un pryd â gweld tafarndai yn cau, yr un yw tynged sawl addoldy, sydd wedi bod yn fan cwrdd pwysig iawn ar un adeg ar gyfer y gymuned leol. Eto pan ddigwydd hynny, ychydig, os fawr ddim o gonsyrn a welir gan y cymunedau lleol nac ychwaith yr enwadau i'w hachub. Bellach rydym fel petaem wedi hen arfer eu gweld yn cau a bod hynny yn rhywbeth i'w ddisgwyl erbyn hyn, ac nad oes awydd i'w cadw ar agor.

Pan sonnir am gau addoldy ymateb arferol ein harweinwyr crefyddol yw dweud nad yr adeilad sydd yn bwysig, ac mai'r eglwys ydy'r credinwyr. Wrth gwrs mae peth gwir yn hynny. Ar y llaw arall yr hyn a welwn bellach yw nifer o ardaloedd yn mynd yn anialwch o unrhyw fath o addoldy, sydd yn gofyn y cwestiwn i ble mae Cristnogion yn gallu mynd bellach i gyd-addoli. Mae profiad y blynyddoedd diwethaf yn dangos, pan fydd addoldy yn cau mai cau am byth a wna ac na fydd yn cael ei ailagor. Yn y dyfodol, nid yn unig y byddwn yn brin o le i addoli ond hefyd a fydd addoldy ar gael mewn ardaloedd ar gyfer cynnal priodasau, bedydd neu angladdau? Mynychais sawl angladd yn ddiweddar lle bu'r gynulleidfa yn lluosog iawn, ond y tristwch yw gweld dirywiad yng nghyflwr rhai o'r addoldai. Y gwir yw mai criw bychan iawn sydd yn cynnal baich ariannol yr adeiladau hyn tra bod lliaws y boblogaeth yn barod i'w defnyddio pan maent yn dewis hynny, ond yn amharod i fuddsoddi amser nac arian i'w cynnal o flwyddyn i flwyddyn. Er bod cau rhai addoldai yn anorfod rhaid gochel rhag amddifadu eu cymunedau yn llwyr o unrhyw safle i ddod at ei gilydd i addoli.

'Mae'n bechod gweld y dafarn yn cau,' meddai un o'r pentrefwyr wrth y tafarnwr.

'Lle'r oeddech chi pan oedd y lle ar agor?' atebodd y tafarnwr.

Yr un ateb mae'n debyg fyddai gan yr Offeiriad a'r Gweinidog.

# O'R LLAN

*gan y Canon Idris Thomas*

**TROI BREUDDWYDION YN FFAITH**

Rydym ni, a llawer eraill yn ogystal, yn gallu breuddwydio breuddwydion ond mater arall yw ceisio eu gwireddu yn enwedig, am ryw reswm, yn y Gymru Gymraeg. Er hynny daeth tro ar fyd mewn llawer o'n hardaloedd ac mae geiriau fel adfywio, mentro, llwyddo ac arloesi wedi disodli disgrifiadau negyddol fel 'dim gobaith caneri', 'nefar in Iwrop', 'wast o amser', 'rhoi'r ffidil yn y to cyn cychwyn'... Gwn fel offeiriad i'r diweddar Carl Clowes fod casineb rhai pobl at wireddu dyheadau yn gallu bod yn gignoeth o greulon ar adegau. Fel cyfaill agos iddo ar hyd y blynyddoedd, cofiaf fel y byddai Carl yn talu'r clod uchaf bob tro i'r holl bobl arbennig, yn werinwyr ac enwogion, a fu ar y daith gyffrous, anhygoel ac adeiladol gydag ef. Ni fu taith debyg iddi ac fel y gwyddom fe drodd dyheadau yn ffaith ac yn waddol cwbl arbennig.

Braint oedd arwain angladd Carl Clowes yn Eglwys Llanaelhaearn fis Rhagfyr diwethaf ynghyd â'r Parchg. Aled Davies. Braint wedyn yn y prynhawn oedd ymuno i sôn amdano mewn cyfarfod i ddathlu ei fywyd a'i waith egnïol, yn Neuadd y Nant, Nant Gwrtheyrn. Roedd yn achlysur cofiadwy. Y golled fwyaf fydd i Dorothi ei briod a'i blant Dafydd, Rhiannon, Angharad, Cian a'u teuluoedd oll.

**Y DYDDIAU CYNNAR**

Yn 1974, a finnau wedi bod yn gurad ers tair blynedd ym mhlwyf Llanbeblig, Caernarfon ac wrth fy modd yno, daeth yn amser meddwl am fynd i blwyf, ond i ble? Cynigiodd yr Archddiacon un neu ddau o leoliadau ond nid oeddent yn apelio ataf. Un noson canodd y ffôn a llais Esgob Bangor ar y pryd, y Dr. G. O.Williams, yn dweud yn syth: "Idris, mae'r Doctor isio chi yn daer iawn ym Mro yr Eifl. Meddyliwch am y peth rŵan a dewch yn ôl ata i reit slic". Nid oeddwn wedi sgwrsio gyda'r "Doctor" hwn na hyd yn oed ei gyfarfod! Yn ddiweddarach, deuthum i wybod fod rhai plwyfolion wedi rhoi eu hachos gerbron eisoes, er nad oeddent yn obeithiol. Fodd bynnag nid un i roi'r ffidil yn y to yn hawdd oedd Carl, oherwydd fe ysgrifennodd lythyr personol at G. O.Williams ac roedd yn amlwg fod y llythyr wedi ei gyffwrdd. Felly dyna finnau yn dechrau hel fy mhac o dref annwyl y Cofis a symud i Fro yr Eifl. Yn ddiddorol ac eironig iawn, dywed Carl yn ei lyfr *Antur Aelhaearn* fod pwysau proffesiynol o du yr awdurdodau meddygol wedi bod arno fo i beidio ystyried dod i bractis Llanaelhaearn, Trefor a Llithfaen. Ni fuom ein dau erioed yn edifar. Roedd Carl a'r teulu yn ffyddlon yn Eglwys Llanaelhaearn ac yn cyfrannu mewn amrywiol ffyrdd. Eto yn yr un llyfr dywed Carl yn blwmp ac yn blaen: "a oeddem ym mhlwyf Llanaelhaearn rywfaint haws â datblygu ein cymdeithas heb ystyried yr elfen ysbrydol? Na. Os oeddem am sicrhau dyfodol cymdeithasol ac economaidd i'n bro roedd yn rhaid hefyd




sicrhau ei ffyniant ysbrydol."

**CYNIGIODD FFISIG I WELLA**

Cyn i mi ond megis dechrau setlo yn y plwyf, cefais fy hun ynghanol y frwydr o gadw'r practis meddygol (a oedd yn cynnwys meddygfeydd yn Nhrefor, Llithfaen a Llanaelhaearn) gan fod yr awdurdodau am ei uno â phractis arall. Roeddwn yn llywyddu'r brotest a gafwyd yng ngardd yr Awdurdod Ymarferwyr Teulu yn Lôn Ddewi, Caernarfon lle roedd llu o bentrefwyr wedi ymgasglu. Enillwyd y frwydr. Darganfyddais yn syth mai nod Carl oedd gwella cyflwr yr ardal. Ar wahân i gynnig ffisig meddygol fel pob meddyg arall, cynigiodd hefyd ffisig a roddai ffydd a hyder newydd i'r gymdeithas a hynny trwy sefydlu cymdeithas gydweithredol Antur Aelhaearn (yr Antur Bro cyntaf ym Mhrydain) yn 1974, sydd yn ffynnu o hyd. Yn ddiweddarach wrth fy ngwrs gwireddwyd ei freuddwyd anhygoel yn Nant Gwrtheyrn.

Un o ddywediadau Carl, a glywais ganddo yn aml, oedd: "Wyddost ti, wedi ceisio argyhoeddi fod yna broblem, sydd ynddi ei hun yn dasg flinedig, rhaid ymgodymu â hi." Dyna'n union a wnaeth gyda'r prosiectau niferus y bu ynglŷn â hwy. Llŷr ap Rhisiart, Cadeirydd egnïol presennol Antur Aelhaearn, a ddywedodd: "Mae'n gamp dod â phobl hefo chi i wireddu breuddwyd neu weledigaeth, anos fyth gwneud hynny mewn bro lle na chawsoch eich magu. Llwyddodd Carol i wneud hynny yn Llanaelhaearn".

**YSGOGIAD O'R YNYS WERDD**

O'm dyddiau cynnar, ymddiddorais yn Iwerddon gan wrando'n frwd ar radio'r wlad honno yn ogystal â gwylio ei theledu a darllen llyfrau am ei hanes. Yn Ninorwig gynt, nid oedd angen erial teledu yn sownd yn y corn i gael gwasanaeth teledu Iwerddon gan fod y signal yn glir bob amser. Mwynhaf yn fawr ganu gwlad yr Ynys Werdd gan fynychu cyngherddau ei grwpiau gwerin – nid oes eu gwell. I'r Meddyg Carl Clowes y mae'r diolch am agor y drws led y pen i mi a'r teulu gan roi cyfle inni ymweld â llawer lle yn Iwerddon lle roedd mentrau, o dan arweiniad arbennig yr offeiriaid Pabyddol, yn adfywio'r cymunedau. Ni wnawn fyth anghofio'r teithiau hynny a thra byddaf byw ni wnaf anghofio geiriau a ysgrifennodd y Tad James McDyer o Glencolumbkille (ac a ddarllenais yn y cyfarfod coffa yn Nant Gwrtheyrn): "Cefais fy nghynnal gan fy nghrefydd...allan o adfyd y genir yn aml benderfyniad cadarn...cafodd Gorllewin Donegal noson hir, gwelodd y tywyllwch...O Dduw, gwna iddi weld eto ei hoes euraid". Ysgrifennaf yr erthygl hon ar ôl i mi ddychwelyd o gymryd bedydd yn Nant Gwrtheyrn ac yn fy nisgwyl yr oedd englyn Siw Jones, cyfnither i'm gwraig o Felinfach yng Ngheredigion, i wyrth Carl yn y Nant.

**Cofio Dr.Carl Clowes**

Er yr archoll o'i cholli yn y llaid,
a'i llais yn distewi,
mynnaist achub o'r meini
ein Nant, a rhoi'i hiaith i ni.



# Wrth Fynd Heibio

*gan William H. Owen*

Nid aeth neb dros ben llestri wrth gofnodi fod trigain mlynedd ers darlith radio Saunders Lewis am Dynged yr Iaith. Cyfeiriwyd ati, do, ond bydd nodi teyrnasiad saith deg mlynedd ar orsedd Lloegr yn siŵr o ennyn llawer rhagor o ddawnsio yn y strydoedd eleni er gwaethaf y cyfnod *horiblis* a gafodd y Frenhines yn ddiweddar.

Ysgydwodd y gwleidydd a'r dramodydd o Benarth y sefydliad i'w seiliau gyda'i ddarlith nodedig. Coffa da gwrando arni ar y radio batri sych cyntaf i ni ei chael, heb fatri gwlyb hefyd. Gwyddwn ei fod wedi dweud pethau mawr wrth y gwrandawyr heb sylweddoli ar y pryd beth fyddai canlyniadau hynny.

Yn syml, ni welai ddyfodol i'r iaith fel iaith fyw heb chwyldro. Yn fuan iawn roedd hwnnw ar gerdded er mai cymharol ychydig, a chofio nifer y siaradwyr Cymraeg ar y pryd, oedd yn cymryd rhan uniongyrchol yn y protestiadau. Fodd bynnag, nid oedd Cymru na'r Cymry wedi gweld unrhyw beth tebyg o'r blaen lle'r oedd cynifer o siaradwyr Cymraeg yn fodlon codi eu llais, gweithredu a mynd i garchar dros barhad yr iaith oedd yn prysur ddihoeni.

Yn nhreigl y blynyddoedd bu gweddnewidiad yn hanes y Gymraeg; ei chael ar bost a phared, ymhobman lle dylai'r iaith fod. Bu twf sydyn am gyfnod mewn addysg Gymraeg ac erbyn hyn mae gennym Lywodraeth Gymreig sy'n fodlon ei chefnogi i'r fath raddau eu bod am weld miliwn o siaradwyr Cymraeg ar dir Cymru ymhen 28 mlynedd.

A fuasai calon Saunders Lewis yn cynhesu wrth glywed hyn? Efallai y byddai, yn falch fod rhyw fath o newid wedi digwydd yn sgil ei eiriau. Ond arhoswch funud! Ni allai beidio â gweld y dirywiad affwysol yn safon yr iaith lafar ac mewn un rhan o'n bywyd Cymraeg – byd crefydd. A chofio mai mab i weinidog Presbyteraidd oedd Saunders Lewis wedi troi ei got i fod yn Babydd aeth llawer o Gymry pybyr i'w ddilyn ar un cyfnod. Mab i un o'r teuluoedd rheiny a alwyd i gynorthwyo Boris Johnson yn ei drybini ddechrau'r flwyddyn! Wedi'r brwdfrydedd cychwynnol o fynd yn nes at yr Hen Grefydd ni chynhaliwyd hynny rhywsut ac ni fedrir dweud fod yr Eglwys Gatholig Gymraeg wedi ffynnu.

Dyna'r casgliad a gawn yn llyfr dadlennol fy hen gydweithiwr, y diweddar Ioan Roberts, a fu'n ymlafnio i ysgrifennu hanes y Cylch Catholig yn *Gwinllan a Roddwyd* am beth amser cyn ei farwolaeth sydyn ddwy flynedd yn ôl.

Wrth gwrs, nid y Catholigion yn unig sydd wedi cael trafferth i gynnal brwdfrydedd y Cymry yn eu crefydd. Pan oedd aelodau Cymdeithas yr Iaith yn groch eu protest dros y Gymraeg yn y chwech ar saithdegau gofynnodd y Parch Robert Owen, Llanllyfni ble'r oedd y rhain? Nid oeddynt yn t'wyllu lle o addoliad Cymraeg, meddai. Ac roedd yn dweud hynny pan oedd mwy o lewyrch o lawer ar aelodaeth capeli ac eglwysi.

Heddiw, byddai'r 'proffwyd' o Benarth wedi gweld dadfeiliad ein sefydliad crefyddol, y pileri a gynhaliodd y Gymraeg a'r bywyd diwylliannol Cymraeg gyhyd yn chwilfriw. Byddai'n digalonni, fel llawer iawn yn y Gymru hon, o weld ei chrefydd ar ei gliniau.

A fyddai'n ailadrodd ei gri yn achos y dihoeniad mawr yma: 'Trwy ddulliau chwyldro yn unig y mae llwyddo'? A oes digon ar ôl i genhadu dros y 'chwyldro' hwnnw?

# TUDALEN Y PLANT



## Y Bedd Gwag

Yn hwyr ar y nos Sadwrn, pan oedd y Saboth drosodd, aeth Mair Magdalen, Salome a Mair mam Iago i brynu perlysiau ar gyfer eneinio corff Iesu. Yna'n gynnar iawn ar y bore Sul, pan oedd hi yn gwawrio, dyma nhw'n mynd at y bedd. Roedden nhw wedi bod yn trafod ar eu ffordd yno pwy oedd yn mynd i rolio'r garreg oddi ar geg y bedd iddyn nhw. Ond pan gyrhaeddon nhw'r bedd dyma nhw'n gweld fod y garreg, oedd yn un drom iawn, eisoes wedi'i rholio i ffwrdd.

Wrth gamu i mewn i'r bedd, dyma nhw'n dychryn, achos roedd dyn ifanc yn gwisgo mantell wen yn eistedd yno ar yr ochr dde. "Peidiwch dychryn," meddai wrthyn nhw. "Dych chi'n edrych am Iesu o Nasareth gafodd ei groeshoelio. Mae wedi dod yn ôl yn fyw! Dydy e ddim yma. Edrychwch, dyma lle cafodd ei gorff ei roi i orwedd. Ewch, a dweud wrth ei ddisgyblion a Pedr, 'Mae Iesu'n mynd i Galilea o'ch blaen chi. Cewch ei weld yno, yn union fel roedd wedi dweud.'"
(Marc 16:1-7 beibl.net)

## Beth am orffen llun yr Wy Pasg?

